# Atodiad A - Bidiau Refeniw 2012-13

| Cyfeirnod | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law: Parhaol (£) | Manylion y bid a ddaeth i law: Unwaith ac am byth (£) | Argymhelliad | Symiau Argymhellir: Parhaol (£) | Symiau Argymhellir: Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | | | |
| AD02 | Cyllido Lleoliadau Gwaith REMPLOY | Geraint Owen | Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi bod yn derbyn unigolion gan REMPLOY i weithio o fewn amryw o'i wasanaethau h.y. trefniant "interwork". Ar hyn o bryd, mae pedwar unigolyn yn cael eu cyflogi gan y Cyngor ar sail y trefniant hwn ac mae canran o'u cyflog yn cael ei dalu gan REMPLOY (canran o'r cyfraniad yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac hynny'n ddibynnol ar y lefel cynhaliaeth sydd ei angen arnynt).<br>O'r flwyddyn ariannol 2012/13 ymlaen, ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfraniad gan Remploy at gyflogi'r unigolion ac felly bydd diffyg yn y gronfa dan sylw a chostau cyflogi ychwanegol i'r Cyngor. Golyga hyn bod diffyg o £12,503.40 yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2012/13 ac i'r dyfodol. | 12,504 | 0 | Cyllido y bid er mwyn parhau'r gwasanaeth ar y lefel gyfredol. | 12,504 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | | **12,504** | **0** | **0** | **12,504** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Cyllid** | | | | | | | | |
| Cyll02 | Sicrhau parhad gwasanaeth craidd budd-daliadau | Dafydd L Edwards | Sicrhau parhad gwasanaeth craidd gweinyddu budd-daliadau yn sgil gostyngiad grant y Llywodraeth Ganolog, trwy gynnal y lefel staffio presennol. | 43,830 | 0 | Cyllido y bid er mwyn parhau'r gwasanaeth ar y lefel gyfredol. Mae costau Gwynedd yn gymharol isel yn y gwasanaeth hwn erbyn 11/12, ond mae angen gwella perfformiad. | 43,830 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Cyllid** | | | | **43,830** | **0** | | **43,830** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | | |
| DaCh01 | Cyflogau Aelodau | Dilys Phillips | O fis Mai 2012 ymlaen bydd cyflogau (lwfansau) aelodau yn cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r Panel wedi cyhoeddi ei adroddiad drafft ar gyfer 2012 sy'n dangos y bydd cynnydd sylweddol yn y talidau a wneir i aelodau Gwynedd. | 142,000 | 0 | Cyllido y bid yn unol â gofynion statudol y trefniadau newydd. | 142,000 | 0 |
| DaCh02 | Costau Post Gwasanaeth Cofrestru | Iolo Roberts | Mae pwysau ar Gyllideb Postio Cofrestru Etholwyr wedi codi yn sylweddol yn sgil cynnydd mewn costau postio a chynnydd yn y gofynion statudol i gysylltu ag etholwyr. Mae'r bid i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn. | 15,000 | 0 | Cyllido y bid er mwyn parhau'r gwasanaeth ar y lefel gyfredol. Yr Adran wedi cytuno i sicrhau ymgyrch i arloesi wrth gynyddu'r defnydd o dechnoleg i leihau costau postio, i warchod rhag twf pellch yn y costau. | 15,000 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | **157,000** | **0** | | **157,000** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | | | |
| Rh05 | Gorfodi Iechyd a Lles Anifeiliaid | John Reynolds | Parhau i ddarparu gwasanaeth statudol gorfodi Iechyd a lles anifeiliaid yn sgil gostyngiad grant canolog. | 83,000 | 48,000 | Cyllido elfen barhaol y bid yn unol â phenderfyniad y Grwp Arweinyddiaeth llynedd. Yr Adran i gyllido'r swm Unwaith ac am Byth o danwariant. | 83,000 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | | | | **83,000** | **48,000** | | **83,000** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | | |
| PB3 | Defnyddio hydrants ar gyfer glanhau strydoedd | Gwyn M Jones | Mae'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn defnyddio dŵr ar gyfer glanhau strydoedd (yn dilyn damweiniau ayyb) gan ddefnyddio hydrants Dŵr Cymru. Bellach mae'n ofyn statudol i gael trwydded ar gyfer y defnydd yma. Derbyniwyd rhybydd diweddar yn bygwth achos llys yn erbyn y Cyngor. | 18,000 | 0 | Cyllido y bid er mwyn cwrdd â'r gofynion statudol a chynnal y gwasanaeth ar ei lefel bresennol | 18,000 | 0 |
| PB5 | Strategaeth Wastraff | Gwyn M Jones | Fel rhan o'r stratgaeth wastraff a gymeradwywyd gan y Cyngor rhagwelwyd y byddai yna gynnydd yng nghostau o tua £500,000 rhwng 2011/12 a 2012/13 i ariannu datblygiadau ym maes gwastraff er mwyn cwrdd â'r targedau ail gylchu. Bellach, mae'r gwasanaeth wedi nodi y gellir cyfyngu hyn i £126,000 sy'n ariannu elfen o safle mwynderau Blaenau Ffestiniog a'r gost ychwanegol o anfon 3,000 tunnell o fwyd i GwyriAD. Bydd y gwasanaeth yn wynebu colled grant o £173,000 yn 2012/13 na ragwelwyd pan sefydlwyd y strategaeth, ond byddant yn dygymod gyda'r golled honno y tu mewn i'r adnoddau sydd ar gael. | 233,000 | 0 | Cyllido'r bid i'r swm diwygiedig er mwyn cyflawni'r Strategaeth gytunedig. | 126,000 | 0 |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | **251,000** | **0** | | **144,000** | **0** |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| TGC03 | Ffioedd Preswyl a Nyrsio | Gwen Carrington | Mae Cyngor Gwynedd wedi adolygu ffioedd Preswyl a Nyrsio yn sgil her gyfreithiol. Canlyniad yr adolygiad wedi adnabod yr angen i gynyddu lefel ffioedd preswyl a nyrsio ar sail gwybodaeth cost darpariaeth a chynaliadwyaeth y gwasanaeth. Mae'r bid yma ar gyfer cwrdd â'r costau hynny. | 500,410 | 0 | Cyllido y bid yn unol â phenderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 13 Rhagfyr 2011 | 500,410 | 0 |

# Atodiad A - Bidiau Refeniw 2012-13

| Cyfeirnod | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion y bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| TGC04 | Bidiau cyfnod trosiannol 18+ | Ann Lloyd Jones | Bid ar gyfer costau achosion pobl ifanc sydd yn cyrraedd 18 oed ac angen trosglwyddo i wasanaeth oedolion er mwyn iddynt barhau i dderbyn gofal a chefnogaeth. Ar hyn o bryd gwasanaeth plant sydd yn cyllido eu gofal tan eu bod yn 18 oed. Pan mae'r amser yn dod i'w trosglwyddo i wasanaeth oedolion nid yw'r cyllid sydd yn cael ei wario arnynt yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion. Oherwydd hyn mae gofyn i'r gwasanaeth oedolion adnabod cyllid ar eu cyfer. Gyda'r wasgfa ariannol fawr ar gyllidebau gwasanaeth oedolion ag anabledd dysgu ystyrir na ellir ariannu'r achosion hyn o fewn y gyllideb bresennol.<br>Bydd 19 o unigolion yn trosglwyddo yn ystod 2012/13, ac mae'r bid yma ar gyfer cwrdd â chostau y pecynnau mwyaf dwys o'r rhai sy'n trosglwyddo. Noder, derbyniwyd arian parhaol o £176,150 llynedd ar gyfer yr oedran trosiannol, ac mae swm y bid yn ychwanegol i'r swm hynny. | 300,660 | 0 | Cyllido y bid i sicrhau darpariaeth ar gyfer yr anghenion. Noder fod arian demograffi yn cael ei drosglwyddo i gyllideb craidd y gwasanaeth i gwrdd â'r twf yn y niferoedd. Argymhellir felly cyllido £243,720.<br>Noder fod gwaith effeithlonrwydd traws-adrannol yn mynd rhagddo i adnabod potensial ail-ddylunio'r gwasanaeth. Gwyddys eisoes fod cyllideb y Cyngor ar anableddau dysgu y 3ydd uchaf o'r teulu yn 2010/11. | 243,720 | 0 |
| TGC06 | Demograffi plant mewn gofal - lleoliadau allanol | Aled Gibbard | Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r niferoedd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 175 i 193 tros y flwyddyn ddiwethaf. Tra bo Gwynedd yn ymgeisio i leoli'r plant mewn gofal maeth lle bo hynny'n bosib (noder bod y nifer o rieni maeth wedi codi o 59 i 92 rhwng 2007 a 2011) nid yw bob amser yn bosib diwallu'r holl anghenion trwy adnoddau mewnol, sef maethu. Ar gyfartaledd bydd rhwng 3 a 5 yn parhau i orfod mynd i leoliadau all-sirol ar gost o rhwng £1,000 yr wythnos am leoliad maethu allanol, a rhwng £3,000 - £5,000 yr wythnos ar gyfer lleoliad preswyl. Er mwyn ceisio osgoi cymaint a phosib ar hynny, a chael y datrusiad gorau i'r plant yn syth, mae gwaith y Panel Datrusiadau yn allweddol.Mae elfen o'r bid yma ar gyfer parhad cyflogaeth Swyddog y Panel Datrusiad, ac elfen i gwrdd â'r costau uchel lleoliadau all-sirol. | 254,170 | 0 | Cyllido y bid i gyfarch y cynnydd yn y gost a'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaeth. Gwaith penodol yn cael blaenoriaeth ar ddarpariaeth egwyl fer a'r agenda maethu lleol. Gwariant cymharol yr uchaf ymhlith y teulu a £3.6m yn uwch na chanolrif y teulu. Ymddengys bod y gost fesul achos yn uchel. Bwriedir hefyd gynnal adolygiad manwl o'r gwasanaeth hwn. | 254,170 | 0 |
| TGC10 | Gweithiwr Cymdeithasol Tim Derbyn Cyfeiriadau | Marian Parry Hughes | Fe sefydlwyd y tîm cyfeiriadau yn 2006. Mae'r tîm wedi ei sefydlu er mwyn prosesu a rheoli'r holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau plant.<br>Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd graddol flwyddyn ar ol blwyddyn yn nifer yr atgyfeiriadau a hysbysiadau a dderbyniwyd. | 42,820 | 0 | Cyllido y bid am **2 flynedd** i alluogi cynnal trafodaeth â phartneriaid am safon y cyfeiriadau. Posibilrwydd o ddatrusiadau eraill yn y tymor canolig. Gwariant cymharol uchel - 4ydd uchaf yn y teulu. Mae pryderon am y perfformiad. | 0 | 85,000 |
| **Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | **1,098,060** | **0** | | **998,300** | **85,000** |
| | | | | | | | | |
| **Adran Addysg** | | | | | | | | |
| Add03 | Cyfundrefn CRB's, Geirda a Phenodi | | Angen i rymuso trefniadau gwiriadau CRB (Criminal Records Bureau) a geirda mewn penodiadau Addysg yng Ngwynedd yn sgil adroddiad Estyn ac AGGCC ar faterion Diogelu Plant yn Awdurdod Penfro ac yn dilyn arolwg arweiniol o'r trefniadau presennol yng Ngwynedd.<br>Bid am adnodd unwaith ac am byth i ymdrin ag ôl-groniad, a bid am adnodd parhaol i wneud y gwaith o hyn allan. | 21,352 | 21,352 | Yr Adran i gyllido'r ol-groniad. Yn dilyn adroddiad Penfro, argymhellir cyllido gan na ellir dygymod gyda'r gofyn o fewn yr Adran gan adnoddau presenol . | 21,352 | 0 |
| Add05 | Refeniw ychwanegol yn sgil adeilad newydd Ysgol yr Hendre | Owen Owens | Adeilad newydd Ysgol yr Hendre yn golygu costau refeniw uwch ar gyfer trethi, glanhau, cynnal a chadw, trydan ayyb. | 50,000 | 0 | Cyllido 50% o'r gost, gyda'r Adran yn ganolog i gyllido'r gweddill, ond gan sicrhau nad yw hynny ar draul ysgolion eraill. | 25,000 | 0 |
| Add 10 | Cludiant Disgyblion a Myfyrwyr - cynnydd mewn costau tacsis ar gyfer cludo plant oherwydd cytundebau newydd i gludo. | Owen Owens | Cynnydd yng nghost cytundebau cludiant ynghyd a chytundebau newydd wedi eu sefyldu ar gyfer unigolion | 228,910 | | Cyllido'r costau ychwanegol. Bydd angen cydweithio gyda'r Uned Cludiant Integredig i sicrhau y trefniadau cludiant mwyaf effeithlon. | 228,910 | |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | | | | **300,262** | **21,352** | | **275,262** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **1,945,656** | **69,352** | | **1,713,896** | **85,000** |

# Atodiad B - Bidiau Cyfalaf 2012-13

| Cyfeirnod | Rheswm tros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Swm y Bid (£) | Argymhelliad | Swm a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | |
| AD01 | Rhaglen Dreigl o welliannau diogelwch tu mewn i safleoedd ysgolion | Dafydd Wyn Williams | Gwelliannau yn codi o'r rhaglen dreigl yn dilyn rhybudd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) yn 2004. | 150,000 | Peidio a chyllido y bid - 16 o'r prosiectau risgiau uchaf eisoes wedi eu cyfarch. | 0 |
| AD02 | Rhaglen ddiogelwch trafnidiaeth ysgolion - Ysgol Eifionnydd | Dafydd Wyn Williams | Gwella'r fynedfa i'r ysgol | 150,000 | Peidio a chyllido y bid - ddim yn flaenoriaeth yn y rhestr waith | 0 |
| AD03 | Rhaglen ddiogelwch trafnidiaeth ysgolion - Ysgol Cae Top | Dafydd Wyn Williams | Gwelliannau i'r maes parcio | 230,000 | Cyllido y bid yn rhannol, er galluogi'r Adran i ddenu grantiau i gwblhau'r prosiect | 100,000 |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | | **530,000** | | **100,000** |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| TGC02 | Adeilad ar gyfer darparu egwyl fer i blant anabl | Aled Gibbard | Darpariaeth presennol y gwasanaeth ar gyfer egwyl fer i blant anabl yn llwyr ddibynnol ar leoliadau maethu (mae gan pob Sir arall yn y Gogledd uned breswyl). Cyfyngiadau felly ar gymhlethdod yr anghenion y gellir eu diwallu. Yn ogystal, oherwydd datblygiadau a chynnydd mewn triniaethau meddygol, mae rhai plant anabl bellach yn byw yn llawer hirach nac oeddent gyda'r un cyflwr mewn blynyddoedd a fu. Golyga hyn bod cynnydd yn y galw am wasanaethau megis egwyl fer. Nid yw sefyllfaoedd fel hyn yn gynaladwy i deuluoedd heb gael seibiant o bryd i'w gilydd i gynnal yr uned deuluol. Oherwydd diffyg opsiynnau lleol golyga hyn wariant ar leoliadau pell i ffwrdd a chostus. Mae'r achos busnes yn rhoi ystyriaeth i opsiynnau ar gyfer ehangu a chryfhau dewisiadau egwyl fer i blant a phobl ifanc anabl ac ar gyfer comisiynu gwasanaeth a all gynnig gofal tymor hir i achosion mwy dwys a chymhleth. Mae lleoliadau hir dymor dros £230,000 y flwyddyn yr achos, ac mae nifer yr achosion yn cynnyddu (8 achos yn 2011/12). | 640,000 | Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus i gael ei gyllido trwy fid cyfalaf ysgolion 21G, ac mae'r cynllun yn rhan o'r bid llwyddiannus uchod. Nid yw trafodaethau am ddod a'r cynllun ymlaen o ran ei amseriad wedi dod i gasgliad ac ar y sail yma felly, nid oes sicrwydd os oes angen yr arian rhag-blaen. | **0** |
| **Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | **640,000** | | **0** |
| | | | | | | |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | |
| Ec03 | Cronfa Ddatblygu Gwirfoddol | Catrin Thomas | Cefnogaeth i'r Trydydd Sector | **140,000** | Cyllido y bid fel rhan o'r cytundeb hefo'r Trydydd Sector gan sicrhau fod y gefnogaeth yn eu cynorthwyo i ddatblygu cydlyniad strategol eu cynlluniau gyda blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd angen ail edrych ar ddulliau dyrannu'r arian i sicrhau cyd-lyniant â blaenoriaethau strategol y Cyngor. | **140,000** |
| **Cyfanswm Adran Economi a Chymuned** | | | | **140,000** | | **140,000** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **1,310,000** | | **240,000** |

**Atodiad C - Bidiau na argymhellir eu cyllido o fewn y gyfundrefn bidiau anorfod.**

| Cyfeirnod | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | |
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | |
| AD03 | Adenill Costau AGID (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) | Geraint Owen | Polisi newydd gan y Llywodraeth ac AGID i adennill costau archwiliadau ac ymchwiliadau. | 10,000 | 0 | Yn hanesyddol, mae sail y ffioedd oddeutu £10,000 y flwyddyn, ac argymhellir y dylai'r Adrannau perthnasol ysgwyddo'r costau. |
| **Adran Cyllid** | | | | | | |
| Cyll01 | Modiwl meddalwedd Risk Based Verification | Dafydd L Edwards | Modiwl meddalwedd "Risk Based Verification" ar gyfer sicrhau parhad gwasanaeth craidd gweinyddu budd-daliadau | 12,000 | 12,000 | Yr Adran wedi cytuno i gyllido'r angen gan y bydd yn cynorthwyo i wella perfformiad. |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | |
| DaCH03 | Trefn gwynion y Cyngor | Dilys Phillips | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Polisi Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n anelu at gyflwyno trefn gwynion gyson a chydnabyddedig ymhob corff cyhoeddus.<br><br>Yn dilyn trafodaeth rhwng yr Adrannau Democratiaeth a Chyfreithiol a Gofal Cwsmer, cytunwyd mai'r ffordd hwylusaf o ymateb i'r gofynion newydd yw trwy i'r Ganolfan Gyswllt gymryd cyfrifoldeb am dderbyn cwynion, eu cofnodi ar Siebel, ymdrin gyda'r unigolyn ac adrodd yn ôl iddynt. Byddai'r Swyddog Priodoldeb yn derbyn y cyfrifoldeb am ddyrannu cwynion, ymchwilio iddynt lle bo angen ac adrodd arnynt. Gyda'i gilydd byddai'r ddau yn ffurfio'r "adnodd canolog".<br><br>Mae'r cais yma yn ymwneud â'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn y Ganolfan Gyswllt i ymdrin â'r rhan o'r trefniadau sy'n gyfrifoldeb i'r Ganolfan ac, ar sail ymholiadau sydd wedi eu gwneud gyda chynghorau eraill ynghyd ag ystyried yr ychydig ddata sydd ar gael am gwynion o fewn y Cyngor, mae'n cynrychioli un swydd llawn amser. | 23,577 | 0 | Yr Adrannau perthnasol i gyllido'r angen. Argymhellir bod angen sicrhau gweithrediad ond mater i'r gwasanaethau ddatrus drwy adnoddau cyfredol yw hwn. |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | |
| Rh02 | Llwybr yr Arfordir | Wyn Williams | Darpariaeth ar gyfer rheolaeth a chynnal tymor hir y llwybr yng Ngwynedd | 20,000 | 0 | Mater datblygol yw hwn, felly yr Adran i gyllido'r angen drwy flaenoriaethu adnoddau cyfredol. |
| Rh03 | Gwasanaethau Bysiau | Dafydd W Williams | Risg o gostau uwch yn dilyn ail-dendro ym Meirionnydd ar gyfer 2012/13 | 300,000 | 0 | Y sefyllfa yn parhau yn aneglur nes bydd y contractau wedi eu gosod. Angen ail-asesu'r sefyllfa yn Ebrill 2012. |
| Rh04 | Gorchmynion Rheoli Cŵn | Aled Davies | Sefydlu, gweithredu a gorfodi Gorchmynion Rheoli Cŵn | 75,000 | 0 | Mater datblygol yw hwn, felly yr Adran i ddatblygu polisi a blaenoriaethu adnoddau cyfredol i gyfarch gofynion. |
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| PB1 | Ychwanegiad i'r rhwydwaith ffyrdd | Gwyn M Jones | Ychwanegiad i'r rhwydwaith ffyrdd yn sgil cwblhau Ffordd Osgoi Porthmadog. Cais am gostau refeniw ychwanegol i gwrdd â'r costau cynnal a chadw ar gyfer y km ychwanegol nawr dan ofal Cyngor Gwynedd. | 30,000 | 0 | Cynnydd bychan yn y cyfrifoldeb ac yng nghyd-destun cyllideb o £6 miliwn, yr Adran i gyllido'r angen allan o gyllidebau cyfredol. |
| PB2 | Rheoli risg coed yn syrthio | Gwyn M Jones | Rheoli risg coed yn syrthio (Polisi Iechyd a Diogelwch corfforaethol) ar diroedd bwrdeistrefol. Bid ar gyfer cyflogi arbennigwyr i asesu'r risgiau. Ni ellir dygymod â'r gwaith o fewn yr adnoddau cyfredol. | 15,000 | 0 | Cyfrifoldeb cyfredol y gwasanaeth felly yr Adran i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ymateb. |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| TGC05 | Ariannu swydd Tim Cynghori ac Asesu | Ann Lloyd Jones | Sefydlwyd y Tîm Cynghori ac Asesu yn 2008 yn dilyn yr adolygiad ar y cyd er mwyn cael pwynt canolog i dderbyn cyfeiriadau Gwasanaeth Oedolion [ac eithrio Iechyd Meddwl]. Hyn er mwyn symleiddio'r drefn a'i gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i wasanaethau ac i sicrhau ateb buan i geisiadau am asesiadau a gwasanaethau drwy eu blaenoriaethu, neu arall gyfeirio at asiantaethau mwy priodol. | 34,640 | 0 | Mae'r gwaith yn anghenrheidiol i'w gyflawni. Mae'r adran wedi cytuno i ariannu drwy flaenoriaethu adnoddau cyfredol er mwyn ymateb i'r gofyn. |
| TGC07 | Therapi galwedigaethol ar gyfer plant anabl | Iona Griffith | Dros y blynyddoedd mae'r tîm therapi o fewn yr awdurdod lleol wedi newid a bellach yn cynnig gwasanaeth gydag addasiadau yn unig ar gyfer plant anabl trwy eu therapyddion galwedigaethol tai – bu i'r gwasanaeth ei hun fod yn llwyddiannus rai blynyddoedd yn ôl i ymestyn y ddarpariaeth. Mae'r bid yma ar gyfer parhau'r gwasanaeth hwnnw, er mwyn sicrhau hyfforddiant cymwys i weithwyr cefnogol wrth ddefnyddio cyfarpar ayyb. | 33,630 | 0 | Yr Adran i flaenoriaethu adnoddau cyfredol i ymateb i'r gwaith yma. Eto, mae'r adran wedi cytuno i ariannu. |
| TGC08 | Cynllun oed trosglwyddo GAP (Gwasanaethau Arbennigol Plant), sef gweithwyr allweddol i gefnogi pobl ifanc. | Iona Griffith | Yn 2008 bu i ni fod yn llwyddiannus gyda cais am grant i fod yn un o 4 ardal beilot yng Nghymru i ddatblygu cynllun gweithwyr allweddol ar gyfer pobl ifanc yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion. 'Roedd cyfanswm y grant a dderbyniwyd dros y 3 mlynedd dros £500,000 a bu modd penodi 4 gweithiwr allweddol llawn amser , a rheolwr a gweinyddwr rhan amser. Arweiniodd hyn i 60 o bobl / oedolion ifanc gael gwasanaeth ar unrhyw adeg trwy'r sir.<br><br>Ar ddiwedd cyfnod y grant llwyddwyd i gael grant Ewrop i barhau â'r rhaglen yn rhannol am 2 flynedd ychwanegol ond ar raddfa llawer llai. Bellach mae 1 gweithiwr allweddol llawn amser tan ddiwedd Mawrth 2013, 0.6 gweithiwr allweddol am 16 mis ychwanegol, a gweinyddwr 0.6 hyd ddiwedd Mawrth 2012.<br><br>Gan nad oes Rheolwr o fewn y cynllun yn awr mae'r dasg o oruchwylio gweithwyr yn mynd yn bwysau ychwanegol ar weithwyr cymdeithasol.<br><br>Oherwydd y diffyg yn y grant ni ellir cynnig gwasanaeth i fwy na 30 o bobl ifanc i'r dyfodol a golyga hyn fod nifer o bobl ifanc heb gymorth gweithwyr allweddol i'w cynorthwyo i drosglwyddo i wasanaethau oedolion. | 76,180 | 0 | Ystyrir fod potensial datblygol i'r gwaith hwn. Mae angen gwaith pellach i ystyried a oes cyfle i fuddsoddi er mwyn arbed ymhellach yn y dyfodol. Os oes achos busnes, yna cyfeirio i'r broses ddatblygol i'w ariannu. |
| TGC09 | Cefnogaeth weinyddol GAP | Iona Griffith | Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wedi colli swydd weinyddol gyfan a diwedd Mawrth 2012 bydd swydd tridiau arall yn dod i ben – y ddwy yn cael eu hariannu o arian grant.<br>Fis Mawrth pan gollir 0.6 swydd ychwanegol sydd wedi ei hariannu gan grant, ni fydd modd cofnodi o fewn y Fforymau Oed Trosglwyddo rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, y Grwp Ymarfer Da Oed Trosglwyddo, na'r grwpiau Gweithwyr Allweddol. | 32,820 | 0 | Y gwasanaeth i flaenoraethu ariannnu'r bid allan o adnoddau cyfredol, yn unol â chanlyniad yr adolygiad gweinyddiaeth. |
| TGC11 | Cofrestr Tai | Arwel Owen | Sefydlu'r Gofrestr Tai Cyffredin | | 14,000 | Adran Strategol a Gwella wedi cytuno i ariannu'r gofyn. |

## Atodiad C - Bidiau na argymhellir eu cyllido o fewn y gyfundrefn bidiau anorfod.

| Cyfeirnod | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | |
| **Adran Addysg** | | | | | | |
| Add01 | Cefnogaeth Adfywio i brosiect Ad-drefnu Ysgolion | Guto Rhys ac Amanda Davies | Wrth ad-drefnu ysgolion mewn dalgylchoedd, mae wedi dod i'r amlwg fod angen sicrhau cefnogaeth Swyddog Adfywio i'r cymunedau hynny.<br>Mae rôl wedi ei hadnabod yn y meysydd canlynol:<br>- Cynnal trafodaeth gyda chymunedau ar ôl-ddefnydd adeiladau/ safleoedd yn unol â Pholisi Gwaredu'r Cyngor gan roi cyngor a chymorth i'r gymuned.<br>- Cefnogi cymunedau i gynnal neuaddau/ adeiladau ysgol ble mae hynny yn ofynnol yn statudol yn ôl lês.<br>- Cefnogi cymunedau ble mae ysgolion yn cau gyda mesurau lliniaru nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cymunedol<br>- Cefnogi a chyfrannu tuag at ddatblygiadau o fewn ardal (ble mae ysgol newydd, ysgol ardal neu gyfuno ysgolion)<br>- Sicrhau mewnbwn i ddefnydd cymunedol ysgolion newydd.<br>- Darparu cefnogaeth i blethu trefniadau newydd i weithgareddau/ asedau cymunedol presennol h.y. osgoi dyblygu/ gwrthdaro<br>Mae Bwrdd Prosiect Ad-drefnu ysgolion wedi mynegi'r angen i sicrhau fod yr adnodd hwn yn parhau am gyfnod amser. | 35,000 | | Mae'r gwaith yn bwysig i'w gyflawni, ond mae dewisiadau ar gael i'r prosiect ad-drefnu ysgolion ar gyfer cyllido, gan gynnwys blaenoraethu defnydd swyddogion adfywio. |
| Add 04 | ONE - system harmoneiddio data perfformiad | Owen Owens | Adnodd anorfod i harmoneiddio data ONE Gwynedd gyda data'r 5 Awdurdod arall ar draws Gogledd Cymru er mwyn sefydlu sail data cyffredin ar gyfer darparu data i Wasanaeth Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sy'n dod yn weithredol erbyn Medi 2012. | | 10,286 | Yr Adran wedi cytuno i gyllido y bid o danwariant |
| Add 06 | Sefydlu Unedau ASD (Autistic Spectrum Disorder) ynghlwm i'r ysgolion arbennig | Orina Pritchard | Bid datblygol ar gyfer sefydlu Unedau ASD o'r newydd ynghlwm i Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar. Byddai hyn yn sicrhau darpariaeth newydd i ddisgyblion sydd â'r lefel uchaf y sbectrwm awtistiaeth. | 210,000 | 0 | Ariannu'r bid ddim yn anorfod ar gyfer cynnal y gwasanaeth ar ei lefel presennol.<br>Cyfeirio'r bid i'r broses datblygol i asesu'r achos busnes ar gyfer arian Buddsoddi i Arbed. |
| Add 07 | Cynyddu lefel staffio yn Ysgolion arbenning y Sir | Orina Pritchard | Cynyddu lefel staffio yn Ysgolion Pendalar a Hafod Lon. | 260,000 | 0 | Ariannu'r bid ddim yn anorfod ar gyfer cynnal y gwasanaeth ar ei lefel presennol.<br>Mae angen ystyried gwaith ymchwil i lefelau ariannu ysgolion arbennig a'r opsiynnau cysylltiedig. |
| Add08 | Sicrhau darpariaeth yn dilyn dod a darpariaeth Ysgol Coed Menai i ben | Orina Pritchard | Cryfhau elfen staffio yn y Gwasanaeth Disgyblion a Chynhwysiad ar gyfer disgyblion ag anawsterau dwys a chymhleth o safbwynt materion ymddygiadol ac emosiynol ar draws y Sir | 130,000 | 0 | Ariannu'r bid ddim yn anorfod ar gyfer cynnal y gwasanaeth ar ei lefel bresennol. Unrhyw gostau i'w ystyried yn yr achos busnes ar gyfer y ddarpariaeth amgen yn lle Coed Menai. |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | |
| Ec02 | Eisteddfod yr Urdd Eryri | Sioned Williams | Bydd disgwyl i Gyngor Gwynedd sicrhau presenoldeb ar faes Eisteddfod yr Urdd Glynllifon yn Mehefin 2012. Er nad oes disgwyl i'r Cyngor gyfrannu yn ychwanegol tuag at gostau trefnu'r Wyl, mae costau yn gysylltiedig â sicrhau presenoldeb a chefnogi gweithagareddau.<br><br>Yn Eisteddfod Bala buddsoddwyd £76,000 gan Cyngor Gwynedd yn ychwanegol i'r cyfraniad blynyddol. Nid oes disgwyl y lefel yma o fuddsddiad y tro hwn – bydd yr Adran yn ceisio uchafu'r gwerth drwy dargedu nifer o grantiau, gwneud defnydd o arian nawdd a rhaglenni ariannu sydd ar gael i gynnal gweithgaredddau a chystadleuthau. | | 28,000 | Mater dymunol i'w gefnogi ar sail unwaith ac am byth o'r gronfa ddatblygol. |
| **Adran Darparu a Hamdden** | | | | | | |
| DaH02 | Cartref Bryn Blodau – Ariannu yn dilyn cynnydd mewn maint | Morwena Edwards | Ers agor yr uned ddementia arbennigol ym Mryn Blodau (fel rhan o brosiect Adeiladu i'r Dyfodol) gyda chynnydd yn niferoedd y preswylwyr a chynnydd, felly,yn niferoedd staff a'r defnydd wneir o olew, nwy, trydan ac yn y blaen, gwelwyd nad oedd y gyllideb graidd yn adlewyrchu'r costau. Golyga hyn fod gorwariant didor yn y cartref.<br>Er mwyn cysoni a datrys y sefyllfa gofynnir am gyllid ychwanegol i adlewyrchu'r costau . | 35,000 | 0 | Y costau ychwanegol i gael eu hadlewyrchu yn y costau uned gan y darparwr o hyn allan. |
| DaH04 | Gwelliannau bychan (paentio/ailbapuro) o fewn cartrefi preswyl y Cyngor | Morwena Edwards | Ar hyn o bryd mae materion o'r fath yn "disgyn rhwng dwy stol" gan nad yw trefn blaenoriaethu cynnal a chadw y Cyngor yn rhoi digon o bwysigrwydd i'r materion hyn. Nid oes cyllideb ar eu cyfer o fewn cyllidebau refeniw y cartrefi preswyl chwaith. Gan fod yr adeiladau hyn yn gartrefi i bobl, mae angen sicrhau bod materion sylfaenol fel hyn yn cael eu gweithredu. Ymddengys ar hyn o bryd bod diffygion yn ansawdd tu mewn cartrefi sydd wedi eu nodi gan archwiliadau mewnol (Rhan 27) yr adran a hefyd archwiliadau allanol y CSSIW. Mae na debygolrwydd uchel y bydd yr arolygaeth yn gweld bai ar y Cyngor os bydd diffygion fel hyn yn parhau. | 25,000 | 0 | Y costau ychwanegol i gael eu hadlewyrchu yn y costau uned gan y darparwr o hyn allan. |
| | | | **CYFANSWM** | **1,335,847** | **52,286** | |